

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 32/33 Awst 7/14, 2025 50c.

Swyddog Cyhoeddiadau newydd i'r Undeb

Y mae gennym newyddion llawen i'w rannu gyda chi. Y mae'r Undeb wedi penodi aelod newydd o staff i ymgymryd â dyletswyddau'r Swyddog Cyhoeddiadau yn Nhŷ John Penri. Rydym ni'n falch o gyhoeddi y bydd Margaret Hughes o Gaerdydd yn camu i'r swydd ar gychwyn mis Medi.

Daw Margaret yn wreiddiol o Ffair Rhos a mynychodd ysgol uwchradd Tregaron. Cafodd ei haddysg brifysgol yn Aberystwyth ble derbyniodd radd yn y Gymraeg, enillodd radd M.Phil. yn y Gymraeg yno hefyd.

Dros y blynyddoedd gweithiodd Margaret mewn sawl sefydliad cenedlaethol yng Nghymru, a threuliodd y rhan helaeth o'i gyrfa'n gweithio gyda S4C ar yr ochr fusnes a chyllid. Mae ganddi brofiad o reoli prosiectau a gweithio mewn timau gweinyddol, gweithiodd hefyd fel cyfieithydd a golygydd. Yn fwyaf diweddar bu Margaret yn gweithio i'r Eglwys yng Nghymru fel Swyddog Ymddiriedolaethau ac Elusennau.

Wrth dderbyn y swydd meddai Margaret: 'Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at weithio ar yr amrywiaeth o brosiectau sydd ar y gweill gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac at gydweithio â'r staff a'r gymuned ehangach er mwyn eu cyflawni.'

Edrychwn ymlaen at groesawu Margaret i'n plith ym mis Medi.



Huw John Hughes

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y Parchg Dr Huw John Hughes, Porthaethwy. Bu ef weinidog i'r Arglwydd Iesu yn eglwysi Jerwsalem, Llanberis; Carmel, Moelfre ac Eglwys Annibynnol Bangor. Yn ogystal â hynny yr oedd yn ysgolhaig, darlithydd, gŵr busnes ac awdur toreithiog. Cydymdeimlwn gyda'i deulu a'i gyfeillion yn eu profedigaeth. Ar gais H. J. Hughes ni fydd teyrnged yn cael ei gyhoeddi iddo mewn unrhyw gyhoeddiad.

COFIO BARD D CORONOG 1933



Gweinidog Annibynnol a drodd ei gefn ar y môr wnaeth ennill coron Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam ym 1933. Mae hanes y Parchg S. B. Jones a'i gerdd ddramatig 'Rownd yr Horn' yn y rhifyn hwn o'r Tyst.

Parti Pentecost

Saron, Creunant yn dathlu" Ysbryd yn llawen gyda'r gymuned.

Ar benwythnos bendigedig o haf a hwyl, daeth cymuned Cwm Dulais ynghyd i ddathlu Pentecost mewn parti bythgofiadwy yng nghapel Saron. Roedd yr awyrgylch yn llawn llawenydd a chroeso wrth i blant, teuluoedd, aelodau a chyfeillion fwynhau diwrnod llawn gweithgareddau hyfryd.

Y peth cyntaf a ddenodd sylw'r plant oedd y *bouncy castle* enfawr, yn ymestyn tu allan i'r capel fel symbol o lawenydd a rhyddid yr Ysbryd Glân. Gwelwyd wynebau cyffrous wrth iddynt neidio a chwerthin gyda'i gilydd. Yng nghanol yr hwyl, roedd

gweithgareddau plant yn cynnig amrywiaeth o gemau, gan ddod â chynnwrf a chwerthin i'r diwrnod.

Bwydydd

Ni allai parti o'r fath fod yn gyflawn heb fwyd blasus, ac roedd pawb yn cael eu denu gan arogl BBQ blasus, lle gweinwyd byrgys, selsig, a danteithion blasus eraill. Yn cwblhau'r wledd roedd teisennod a danteithion melys yn cael eu

parhad ar dudalen 2



Parti Pentecost – parhad

rhannu gyda charedigrwydd, gan adlewyrchu haelioni'r gymuned eglwysig. Wrth i'r dydd fynd yn ei flaen, llenwid yr aer gyda cherddoriaeth, yn dod â naws ysbrydol i'r parti, gan atgoffa pawb o nerth ac undod yr Ysbryd Glân.

Enillgar

Ond nid parti yn unig oedd hwn, roedd hefyd yn gyfle i estyn allan yn y gymuned, lle rhoddwyd croeso cynnes i bawb, boed yn aelodau rheolaidd neu'n bobl newydd. Roedd yn gyfle i rannu cariad Duw trwy weithredu ac i ddangos undod gwirioneddol yn yr Efengyl. Heb os, roedd Parti Pentecost yng nghapel Saron yn llwyddiant ysgubol, gan ddod â phobl ynghyd mewn cymunedb, llawenydd, a chariad Cristnogol. Wrth i'r diwrnod ddod i ben, roedd pawb yn gadael gydag atgofion bendigedig a chalonnau'n llawn diolchgarwch. Bydd y gymuned yn edrych ymlaen yn eiddgar at y flwyddyn nesaf – lle bydd y neidio ar y *bouncy castle*, yr hwyl a'r gerddoriaeth yn atseinio eto, gan barhau i ddatlu Ysbryd Duw ymhlith ei bobl.

Rhys Locke

Eglwysi Annibynnol Bethesda, Tymbl Capel Seion, Drefach a Nazareth, Pontiets

Cynhelir cyfarfod sefydlu

Parchg Guto Llywelyn

yn weinidog i Iesu Grist
ar yr eglwysi uchod

ar ddydd Sadwrn, 13 Medi, 2025
am 1.30yp

yng nghapel Capel Seion (SA14 7BN)

Estynnir croeso cynnes i bawb
Darperir lluniaeth

Ar ran yr eglwysi:

Elen Davies, Mwynfan, Heol Meri,
Drefach. (01269) 845 677

Ann Thomas, Y Berllan, Drefach
(01269) 841 362

Delyth Bowen, 7 Heol Nazareth,
Pontiets. (01269) 860 430

Ymneilltuaeth bro'r Eisteddfod

Y mae hanes ymneilltuaeth yn Wrecsam a Bro Maelor yn mynd ôl i gyfnod y Piwritaniaid. Dywedir mai pregethu grymus Walter Cradoc ym 1634-35 a ddylanwadodd ar y rhai hynny a sefydlodd yr achos cyntaf yn Wrecsam maes o law. Un o'r cyfryw rai oedd Morgan Llwyd o Wynedd. Yn wir fe gafodd Llwyd dröedigaeth o dan bregethu grymus Cradoc. Yn ddiweddarach dilynodd ef i dde Cymru ac i Lanfaches lle y sefydlwyd yr eglwys anghydfurfiol gyntaf ym 1639. Dychwelodd i Wrecsam ym 1647 ac ymgartrefu ym Mryn-y-ffynnon, gan ofalu am 'eglwys gynnull' y dref. Bu'n gweithio ym 1650 fel cymeradwywr Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru ac fe lafuriodd yn ddygn fel pregethwr teithiol.



Ysgrifennodd lawer o farddoniaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, a rhoddodd nifer o Salmau ar gân yn ogystal â chyfansoddi emynau. Argraffodd nifer o bamffledi a llyfrau, ac yn eu plith yr oedd y clasur hwnnw *Llyfr y Tri Aderyn*. Dywedodd Derec Llwyd Morgan amdano:

O blith mawrion, o ran amrywiaeth y dylanwad a fu arno, o ran cyffro'i rawd, o ran ystyfnigrwydd ffrwythlon ei unigolyddiaeth, ac o ran ei arwyddocâd yn ei ddydd, Saunders Lewis yw'r unig un sy'n cymharu ag ef. Ac ym mrwydr yr oesau, ni hoffwn orfod dewis rhyngddynt.

Bu farw ym 1659 a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent yr Anghydfurfwr yn Rhos-ddu Wrecsam. Y mae cofgolofn iddo yno a ddadorchuddiwyd ym 1912.



Eglwys Annibynnol Wrecsam

Dechreuodd eglwys Annibynnol Gymraeg y dref ym 1820 o dan arweiniad gof o'r enw Hugh Price a hynny mewn stafell oedd yn cael ei rhentu. Ar ôl cyfnod o 24 mlynedd yn yr ystafell llwyddwyd i gael tir ym Mhentrefelin ac yno yr adeiladwyd y capel cyntaf ar gost o £200. Fe'i hgorwyd yn swyddogol ar 1 Medi 1844. Ond lled ddilewyrch fu'r achos o dan weinidogaeth Price hyd ei farwolaeth. Bywiogodd pethau pan ddaeth Rowland Williams (Hwfa Môn) i weinidogaethu. Symudodd gŵr o'r enw Charles Griffiths o'r achos Saesneg yn King's Mill gan ymuno â'r eglwys Gymraeg a bu ef yn hael iawn tuag at y gwaith. Trwy ei ymdrechion ef cafwyd tir i adeiladu capel Queen Street yr hwn a agorwyd 28-29 Mawrth 1863 ar gost o £2,800 a hynny'n cynnwys tŷ capel. Enwyd y capel yn Ebeneser. Wrth i'r capel gael ei godi symudodd Rowland Williams i Fethesda, Gwynedd, a daeth Owen Evans, Llundain, i lenwi'r bwlch hyd 1867. Y flwyddyn ganlynol rhoddwyd galwad i John Morlais Jones i weinidogaethu ond ni fu ei arhosiad yn hir cyn iddo symud i Frynman. Yn y flwyddyn 1871 daeth David Roberts, Caernarfon, i fod yn fugail ar yr eglwys.

Dyna fraslwg ar gychwyn yr eglwys Annibynnol yn Wrecsam. Mae llawer mwy o hanes y gellid ei adrodd. Bellach y mae eglwys Ebeneser wedi uno gydag Eglwys Bresbyteriaidd Capel y Groes ac yn addoli fel un gynulleidfa.

MORWR A GWEINIDOG: BARDD CORON WRECSAM 1933



Rhaid bod y bryddest enillodd coron Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1933 gyda'r mwyaf dramatig a fu erioed. Cafodd 'Rownd yr Horn' ei hysbrydoli gan brofiad y bardd fel morwr ar long gargo yn hwylio drwy stormydd enbyd y 'Roaring Forties' o gwmpas glannau De America.

Y bardd buddugol oedd Simon Bartholomew Jones, un o feibion fferm y Cilie ger Cwmtedu, pentref ar lan môr de Ceredigion. Teulu enwog o ffermwyr, morwyr, beirdd a llenorion. Yr olaf ond un o ddwsin o blant, penderfynodd Simon fynd i'r môr tra bu'n torri ysgall mewn cae ar Foel Gilie. Taflodd y bladur i mewn i'r clawdd, a mynd drannoeth i weld capten llong oedd yn byw yn lleol. Cafodd help ganddo i gael swydd fel *deck hand* ar long gargo, yr *S. S. Tripoli*, gan hwylio o Lundain ym mis Ebrill, 1911 ac yntau'n 17 oed.

Damwain ddifrifol

Teithiodd y *Tripoli* lawr i sawl porthladd yn Ne America, cyn hwylio 'nôl lan i New Orleans. Ond welodd Simon fyth ddiwedd y daith. Syrthiodd lawr i howld y llong, torri ei ddwy goes a chael dolur difrifol i'w ben. Treuliodd fisoedd yn gaeth mewn ysbyty yn Buenos Aires, ac yno y teimlodd yr alwad i fynd i'r weinidogaeth.

Taith y gweinidog

Wedi hyfforddiant yn y Cei a Choleg Bala-Bangor, bu'n weinidog am dair blynedd yng nghapel Annibynol Great Mersey Street yn Lerpwl, cyn derbyn galwad i gapel Creigfryn yng Ngharno, ac yna i Beniel a Bwlch-y-corn yn 1932. Yno, yn y ddau gapel sy'n y bryniau uwchlaw tre Caerfyrddin, y bu'r Parchg S. B. Jones am 30 mlynedd tan ymddeol yn 1962. SB wnaeth fy meddyddio i, er nad wyf yn cofio hynny! Fe wnaeth e hefyd gymwynas fawr gyda ni trwy gyhoeddi *Hanes Peniel a Bwlch-y-corn* (Gwasg Gomer 1938) sy'n olrhain dechreuadau'r ddau achos a disgrifiadau o rai o'r hen ffyddloniaid.

Rownd yr Horn

Ar ôl prin flwyddyn yn ei ofalaeth newydd, fe wnaeth pryddest SB 'Rownd yr Horn' ennill y goron ym mhrifwyl Wrecsam 1933. Gyda fe ar y llwyfan roedd y bardd mawr John Masefield, y *Poet Laureate* ei hun, cyn-forwr oedd wedi hwylio o gwmpas Horn De America. Roedd 27 wedi cystadlu, a'r beirniaid oedd Cynan, Gwili a W. J. Griffith. Mae'r gerdd yn llawn o brofiadau SB a chenchedlaeth hŷn o 'Cape Horners' y buodd e'n sgwrsio â nhw yn ardal Caerfyrddin. Fe ddefnyddiodd ei brofiad ef a phrofiadau hen forwyr cyfnod y llongau hwylio yn y gerdd, ac fe wnaeth y disgrifiadau dramatig sicrhau y byddai'r gerdd yn ffefryn yn y Genedlaethol ac eisteddfodau mawr a mân am flynyddoedd wedyn. Dyma flas ohoni:

'Furl the royals!' ac ymhen bachigyn,
Roedd chwech ohonom fry ar y rigin
Yn dringo a chroesi fel brain ar goed ...

'Leggo' medd Mac, a dyna'r hwyl i lawr,
Minnau yn gorwedd arni yn awr,
Gan ymladd â'r cynfas uwchben yr aig,
a hwnnw'n torchi fel cynffon draig;
Cydiwn fel gele, dwylo a thraed,
A Mac yn clymu; fe saethai y gwaed
O dan fy ewinedd gan lifo'n ffrwd
Drwy rew yr iard, a chronni'n y rhwd ...

Cafodd SB lwyddiant cenedlaethol eto ym 1936, trwy ennill cadair y Brifwyl yn Abergwaun, gydag awdl ar y testun 'Tŷ Ddewi'. Mae ganddo bedwar emyn yng *Nghaneuon Ffydd*, gan gynnwys y garol boblogaidd 'Canol Gaeaf Noethlwm' sef trosiad meistrolgar o 'In the Bleak Midwinter' gan Christina Rossetti.

Heddychwr i'r carn

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd fe wnaeth S. B. Jones siarad yn gadarn yn erbyn rhyfel. Roedd yn gyd-olygydd, gyda Lewis Evans, Pontarddulais, o *Ffordd Tangnefedd* (1943) a *Sylfeini*

Heddwch (1944), a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Heddwch yr Annibynwyr Cymraeg. Yno, mae'r datganiad clir ac oesol: 'Ni ddyfeisiwyd yn holl hanes dyn drais mwy na chysylltu enw ac Efengyl Iesu o Nasareth â rhyfel. Y maent ar y pegynau eithaf oddi wrth ei gilydd; gwneud bywyd yn angau, a goleuni'n dywyllwch ydyw ymgais o'r fath.' Safiad dewr yn ystod dyddiau duon yr Ail Ryfel Byd. Roedd hefyd yn poeni am ddyfodol y Gymraeg, gan ddweud: 'Nid gwisg yw iaith, ond croen, ac y mae gwaed yn hwnnw.'

Hiwmor a thynnu coes

Ond roedd elfen gref o hiwmor yn perthyn i SB hefyd. Cyfansoddodd gerddi doniol i'r adroddwr digri Daniel James Lloyd, un o ddiaconiaid Bwlch-y-corn, gan gynnwys 'Colli'r Cwrcyn', sef adroddiad a enillodd dros gant o gwpanau i DJ mewn eisteddfodau lleol. Hoffai SB chwarae ambell dric diniwed ar y sawl fedrai gymryd jôc, a chafodd yntau ei goes wedi'i thynnu hefyd. Dyma un nodedig. Roedd yn briod ag Annie o Llynarthen, ac fe gafodd SB wahoddiad i feirniadu'r llên yn yr eisteddfod fawr yn y pentre hwnnw. Er ei fod yn fardd y goron a'r gadair yn y Genedlaethol doedd e erioed wedi ennill dim yn eisteddfod Glynarthen, meddai. 'Ond rwy wedi ennill gwobr mwy na hynny, rwy wedi ennill gwraig yma!' Ar hynny, fe waeddodd un o'i frodyr o gefn y gynulleidfa lawn: 'Wnest ti ddim ond ennill honno am fod neb arall yn cystadlu!' Gallwch ddychmygu'r môr o chwerthin wnaeth ddilyn y sylwad yna, ac mae'n siŵr y byddai SB yn chwerthin cymaint â neb.

Cofio

Cof plentyn bach sydd gennyf i am S. B. Jones – hen ŵr wallt gwyn oedd yn pregethu ym Mwlch-y-corn ar bnawn Sul, ac yn dod atom i de weithiau. Ond gallaf ymhyfrydu mai dyma'r dyn wnaeth osod ei fys gwlyb ar fy nhalcen yn faban bach a'm bedyddio 'yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.' A gobeithio y byddai yntau hefyd yn ymhyfrydu fy mod innau yn sefyll yn ei bulpud gynt fel arweinydd achos Iesu Grist yno heddiw.

Alun Lenny



Darllen pellach: Mae gan Jon Meirion Jones ddwy gyfrol

wirioneddol wych: *Teulu'r Cilie* (1999) a *Morwyr y Cilie* (2002) gan Gyhoeddiadau Barddas. Cyhoeddwyd *Cerddi ac Ysgrifau S. B. Jones* (Gwasg Gomer 1966) gan y diweddar Barchg Gerallt Jones, nai i SB a thad Dafydd Iwan. Mae canghennau'r teulu yna wedi ymestyn ymhell!

Cynnal y dystiolaeth Gristnogol yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd



Eleni, Sir Gaernarfon oedd y sir nawdd yn y Sioe Fawr yn Llanellwedd, ac ers sawl blwyddyn bu llawer o godi arian ac ennyn brwdfrydedd o fewn y sir. Cynhaliwyd y sioe yn ôl yr arfer rhwng 21 a 24 Gorffennaf – wythnos gyntaf y gwyliâu ysgol. Y Llywyddion eleni oedd John Owen a'i briod, Marian, o Rowen. Bob blwyddyn mae'r sioe yn 'cychwyn' yn nhref Llanfair-ym-Muallt – un ai yn yr eglwys neu'r capel yno. Dewis y Llywydd eleni oedd Capel Alfa, un o gapeli Eglwys Bresbyteraidd Cymru sydd mewn gofalaeth eciwmenaidd. Y ddau gaplan ar gyfer y Llywydd eleni oedd Aled Davies, yn cynrychioli ochr orllewinol y sir, ac Owain Davies yn cynrychioli'r ochr ddwyreiniol. Roeddent eisoes wedi cyflwyno oedfa'r sioe ar Radio Cymru y bore hwnnw, a chafwyd gwasanaeth yn y capel hefyd ar yr un thema, gan ddilyn hanes Noa'r ferch a'i pedair chwaer, sef merched Selloffhad, a'u brwydr i sicrhau eu bod yn cael cadw eu tir; gallwch ddarllen yr hanes yn Llyfr Numeri, penodau 26 a 27. Yn dilyn y gwasanaeth bu'n rhaid rhuthro i'r sied cneifio defaid ar gyfer Moliant y Maes, ac yno roedd dros fil o bobl wedi dod ynghyd i ganu detholiad o emynau, ac i glywed Côr y Sir yn canu 'Dal dy Dir', sydd hefyd yn enw ar elusen iechyd meddwl i gefnogi ffermwyr o fewn y sir.

Bore Llun, o 7 o'r gloch ymlaen, roedd y tîm caplaniaid yn crwydro'r maes, gan fod ar gael, yn glust gwrandawgar i bwy bynnag oedd am gael sgwrs. Yn yr un modd agorodd pabell tystiolaeth Cytûn, gan gynnig paned a theisen gri, danteithion

i'r plant a chyfle am sgwrs o gwmpas y bwrdd. Roedd ardal helaeth ar gyfer gweithgaredd y plant, a braf cofnodi bod dros 200 o blant wedi ymweld, gan gwblhau project celf. Roedd amrywiaeth o stondinau yno, gan gynnwys am y tro cyntaf elusen Banc Bwyd Trussell Trust – diolch i Alun Griffiths am ddod atom.

Roedd Cymorth Cristnogol yno hefyd, a chafwyd dau wasanaeth ganddynt. Ar y dydd Mercher cafwyd gwasanaeth gan Mari McNeill, gydag Aled a Delyth Davies a Kathryn Stowers o Fyddin yr Iachawdwriaeth yn cynorthwyo. Fel rhan o'r gwasanaeth hwnnw cafodd pawb gyfle i sefyll mewn undod dros heddych, gan ddal baner goch y tu allan i'r babell. Yna, ddydd Iau, cafwyd gwasanaeth o dan arweiniad Cynan Llwyd, yn cofnodi a dathlu 80 mlynedd o waith Cymorth Cristnogol, gydag Aled a Delyth eto'n cynorthwyo, ochr yn ochr â Tim Williams, cydlynnydd y tîm caplaniaid. Cawsom hefyd y pleser o groesawu band Byddin yr Iachawdwriaeth atom ddydd Llun i'n harwain yn ein defosiwn.

Yn ystod yr wythnos rhannwyd dros 1,000 o baneidiau a llawer iawn o sgysiau difyr o gwmpas y byrddau. Bellach Paciwyd cynnwys y babell i'r trelar, sydd ar gychwyn am faes yr Eisteddfod yn Wrecsam. Gobeithio y cawn gyfle i groesawu rhai o ddarllenyddwyr *Cenn@d* i mewn atom yno.

Aled Davies

Cofio'r Parchedig Huw John Hughes

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parchedig Huw John Hughes yn ddiweddar, a hynny yn dilyn cyfnod o salwch. Roedd Huw yn un o'n hawduron mwyaf toreithiog a dawnus fel gwasg, bob amser yn llawn creadigrwydd, ac wrth ei fodd yn ymchwilio ac arbrofi. Dros gyfnod o 30 mlynedd fe baratodd Huw dros 35 o gyfrolau swmpus ar gyfer Cyhoeddiadau'r Gair, y rhan fwyaf ohonynt yn gyfrolau gwreiddiol. Bu wrthi hefyd yn paratoi cyfrolau addysgol i weisg eraill cyn hynny.

Lluniodd gyfrolau gwasanaethau defosiynol di-ri: *Defosiwn Gŵyl y Cynhaeaf*, *Dyrchafu'r Duw Byw*, *Pererin Wyf ac Yr Enw Mwyaf Mawr*. Hefyd, fe addasodd sawl cyfrol, gan gynnwys *Beibl Lliw mewn 365 o storïau* a *Beibl Lliw Stori Duw*, *Chwedlau Mawr y Byd* a *Straeon o Bedwar Ban Byd*. Fel un a dreuliodd flynyddoedd ym myd addysg, cafwyd cyfrolau gwreiddiol i blant ganddo, gan gynnwys *Am Fyd*, *Am Bobl* ac *Am Ddawn*, tair cyfrol yn cynnwys dros gant o storïau gwreiddiol yr un. Daeth y rhain yn ffefrynnau gan athrawon ysgol oedd yn chwilio am ddeunydd ar gyfer gwasanaethau boreol. Aeth ymlaen i baratoi cyfrol o wasanaethau pwrpasol i ysgolion, gyda 66 o wasanaethau cyflawn i blant cynradd.

Maellawerwedi gwerthfawrogi ei galendrau 365 adnod a myfyrdod, *Un dydd ar y tro* a *Diwrnod newydd arall*, a deunyddiau ar gyfer defosiwn personol. Cyfrol llawn ffeithiau difyr oedd *Cracyr Nadolig*. Gyda'r gyfrol yn barod i'w chyhoeddi ddechrau mis Medi, meddyliodd Huw mai da o beth fyddai lansio'r gyfrol yng Nghanolfan Arddio Treborth, gan y byddai'r trimins Dolig allan yno yn barod, a dyna'r llun dwi wedi ei rannu yma.

Aeth ati i baratoi cyfrol ar hanes yr ysgol Sul yng Nghymru, sef *Coleg y Werin*, yn seiliedig ar ei waith ymchwil ar gyfer ei ddoethuriaeth. Ac yntau wedi gweithio mor ddiwyd dros yr ysgol Sul yng Nghymru, gan baratoi nodiadau Beiblaidd fel canllaw i ddosbarth yr oedolion am flynyddoedd, cyflwynwyd Medal Gee er anrhydedd iddo, a hynny mewn seremoni arbennig ym Mangor rai blynyddoedd yn ôl.

Cyfrol werthfawr arall, sy'n dipyn o ffefryn gen i, yw *Cwlwm Celtaidd*, lle'r aeth ati i greu a chasglu cannoedd o weddiâu mewn arddull Geltaidd. Enillodd wobr Tir na n-Og am ei gyfrol addysgol *Cristion dwi i*, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Addysg Grefyddol ym Mangor.

Ond roedd Huw yn gymaint mwy nag awdur, wrth gwrs. Roedd yn weinidog blaengar a mentrus, yn bregethwr hynod boblogaidd, ac yn uchel ei barch gan bawb. Roedd yn athro cynradd ysbrydoledig ac yn fentor i genedlaethau o athrawon yn sgil ei waith fel hyfforddwr yn y Coleg Normal ac yn rhan o dîm a ddatblygodd Gynllun y Porth. Fe gofir amdano hefyd fel naturiaethwr, a dyn y Pili Palas, yn cydreddeg yr atyniad poblogaidd a groesawodd ddegau o filoedd o ymwelwyr ato, ac fel golygydd y cylchgrawn *Cynefin*.

Dwi'n gwerthfawrogi'r cydweithio hapus a fu rhyngom am dros 30 mlynedd, a'r croeso ganddo bob amser ar yr aelwyd ym Mhorthaethwy, ynghyd â Huw a Gwenda. Treuliasom ddyddiau lawer yn cynllunio, trafod a golygu dros 35 o gyfrolau.

Bydd ei gyfrol olaf, sy'n ffrwyth llafur y tair blynedd diwethaf hyn, sef *Dyrys Daith*, yn cael ei chyhoeddi yn Wrecsam yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Cafodd weld y broflen olaf cyn ei hanfon i'r wasg, a dwi'n ddiolchgar i Dr Hefin Jones am gyflwyno



adolygiad hynod werthfawrogol ohoni ar raglen *Bwrw Golwg* rai Suliau yn ôl. Cyfrol yn ymdrin â newid hinsawdd a gofalu am y greadigaeth yw hon, a'i wybodaeth eang o fyd gwyddoniaeth yn disgleirio trwodd. Ond nid cyfrol ffeithiol yn unig mo hon: i Huw, yr hyn oedd yn bwysig oedd bod cynulleidfaoedd yn trafod ac yn ystyried y pynciau pwysig hyn. Felly, mae yna wasanaethau cyflawn ac astudiaethau Beiblaidd yn rhan o'r ddarpariaeth.


Go brin y gwelir eto awdur Cristnogol mor amryddawn a dawnus, gyda'r gallu a'r egni i baratoi dros 35 o gyfrolau – pob un ohonynt yn ffrwyth gwaith ymchwil manwl a thrwyadl.

Diolch am ei gyfraniad enfawr, diolch am ei gyfeillgarwch a choffa da amdano.

Diolch i Siôn Aled Owen am rannu'r englyn hwn i gofio amdano:

Da chdi, a'r Pili Palas – yn creu hud
o'r cread a'i urddas,
dy waith fu'n drysor, da was,
a'i Amen dy gymwynas.

Aled Davies
ar ran y Cyngor Ysgolion Sul a
Cyhoeddiadau'r Gair



Aled a Huw yn lansio *Cracyr Nadolig* yng nghanolfan arddio Treborth

CARTREF NEWYDD I’R STAFELL FYW A CYNNAL

Y newyddion cyffrous yw bod y Stafell Fyw a CYNNAL wedi symud i’w cartref newydd ar 1 Gorffennaf 2025. Mae rhan o Eglwys y Crwys, Caerdydd, wedi ei haddasu ar gyfer y Stafell Fyw, a bydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, CYNNAL a’r Stafell Fyw yn rhannu swyddfa weinyddol. Mae’r bartneriaeth newydd hon yn cael ei ffurfio dan oruchwyliaeth elusen y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Sefydlwyd y Cyngor yn 1971 gyda’r nod o hyrwyddo ffurf iachach o fyw a darparu cefnogaeth i unigolion a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau neu ymddygiadau niweidiol eraill. Bydd tair cangen i waith y Cyngor

- **Y Stafell Fyw:** canolfan adfer yn y gymuned sy’n cynnig cefnogaeth barhaus ac ôl ofal i’r rhai y mae caethiwd yn effeithio arnynt, eu teuluoedd a’u ffrindiau;
- **CYNNAL:** Gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr Efengyl, gweithwyr Cristnogol, a’u teuluoedd;
- **Lle i Fyw:** Stafell Fyw ar-lein, rithiol, sy’n cael ei datblygu gyda chymorth Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac a fydd yn hygyrch ledled y byd ac ym mhob iaith.

Gellir cael manylion llawn am y gwasanaethau a gynigir wrth ddarllen y deunydd ar y gwefannau isod:

www.cyngor-adferiad.org (Cymraeg)
www.stafell-fyw.uk (Cymraeg)
www.cynnal.uk (dwyieithog)
www.recovery-council.org (Saesneg)
www.living-room.uk (Saesneg)

Wynford Ellis Owen fydd Prif Weinyddwr y Cyngor, a dyma’i fanylion cyswllt: Eglwys y Crwys, 77 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AR; ffôn 07796464045; Ebst: wynford@recovery-council.org

Rydym yn chwilio hefyd am un i **gynorthwyo gyda’r gwaith gweinyddol**, swydd ddwyieithog am 15 awr yr wythnos am dymor o dair blynedd i ddechrau, gyda’r posibilrwydd o ymestyn y tymor a’r oriau fel mae’r gwaith yn datblygu ac os bydd cyllid ar gael. Os oes gennych chi neu rywun o’ch cydnabod ddiddordeb yn y swydd sydd i ddechrau ar 1 Hydref, yna cysylltwch â Wynford am swydd-ddisgrifiad a ffurflen gais.

Os hoffech **gyfrannu’n ariannol at y gwaith neu wirfoddoli**, yna cysylltwch â Wynford. Rydym am gydnabod rhoddion a chefnogaeth enwadau Cymru, yn genedlaethol ac yn lleol, tuag at y gwaith, yn ogystal â grant o £15,000 a dderbyniwyd tuag at CYNNAL gan Ymddiriedolaeth Vronhaul. Hefyd, diolch am gefnogaeth Eglwys y Crwys, sydd wedi talu am y gwaith o addasu’r adeilad, a’r grant o £25,000 a dderbyniwyd gan Henaduriaeth Morgannwg Llundain (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) tuag at ail-lansio’r Stafell Fyw.

Bydd **lansiad swyddogol** y fenter newydd yn digwydd ddiwedd mis Hydref 2025 – manylion llawn i ddilyn.

Diolch am bob cefnogaeth.

Denzil John, Cadeirydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill
Ifan Roberts, Cadeirydd Panel Ymgynghorol CYNNAL

Cyflwyno Beiblau i ddisgyblion Ysgol Bancyfelin

Pleser gan Gapel Bancyfelin oedd cyflwyno copi yr un o’r Beibl i ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Bancyfelin, sir Gaerfyrddin. Dyma orchwyl pleserus blynyddol sy’n cael ei gyflawni er cof am y ddiweddar Miss Sallie Walters a fu’n aelod ffyddlon o Gapel Bancyfelin ar hyd ei hoes ac yn gyn-ddisgybl o’r ysgol.



Gwobrwyo Enillwyr Medalau Gee 2025

Eleni cyflwynir naw o fedalau Gee i’r rhai a enwir isod. Diolchwn iddynt am eu ffyddlondeb a’u gweithgarwch dros achos Iesu Grist, a llongyfarchwn hwy yn wresog iawn.

David Elfed Davies, Capel Hermon, Cynwyl Elfed
Jên Ebenezer, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid
Ann Evans, Eglwys Annibynnol Blaen-y-coed
David James, Capel Salem, Treganna, Caerdydd
Gillian James, Capel Salem, Treganna, Caerdydd
Neli Jones, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid
Jane Richards, Capel Glasinfryn, Llanbedr-goch
Ann Williams, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid
Jean Williams, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid



Bydd cyfarfodydd i gyflwyno’r medalau’n cael eu trefnu rhwng Rhagfyr 2025 a Mawrth 2026.

Cofio David Enoch (1926–2025)

Ar sawl gwedd, cam ffôl yw nodi cyfraniadau rhai pobl yn fwy nag eraill, gan y bydd cyfraniadau'r rhelyw ohonom yn dibynnu ar ein cyfleoedd a'n doniau, ein hyfforddiant a'n hamseroedd. Mae bywyd yn medru bod yn annheg ac yn anghyfartal, ac mae angengwerthfawrogi ymdrech ac ymroddiad pawb. Eto, mae cyfraniadau rhai unigolion yn galw am nodyn o werthfawrogiad ar sail y cyfraniad a wnaed ganddynt a hynny yn aml mewn sawl maes. Rhaid felly nodi cyfraniad Dr David Enoch yn y papur hwn. Cyhoeddodd ef ei hun hunangofiant cynhwysfawr – *Enoch's Walk: ninety-five, not out: journey of a psychiatrist* (Y Lolfa, 2021). Hefyd cyhoeddodd Robin Gwyndaf lyfr yn cynnwys gwerthfawrogiad o fywyd a chyfraniad Dr David Enoch yn yr un flwyddyn, *Meddyg y Galon Glwyfus* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2021).

Gwerinwr

Ganwyd David Enoch i deulu glofaol ym Mhen-y-groes ac roedd ei dad yn gweithio yn y pwll glo lleol. Cofiai am ei wreiddiau, ac roedd yn falch o'i gefndir a'i dras. Darllenwn yn ei hunangofiant iddo dderbyn addysg gadarnhaol dan arweiniad nifer o athrawon arbennig. Er nad oedd ei gartref yn llawn o lyfrau, roedd yn falch o fenthyl llawer o lyfrau er mwyn digoni ei angen am wybodaeth a hynny ym mhob maes. Un o'r meysydd hynny oedd ei ffydd. Mynychai ef a'i deulu achos Annibynwyr Capel y Sgwâr, a daeth hefyd o dan ddylanwad yr eglwys Bentecostaidd, sef yr Apostolic Temple. Ymdeimlodd â'r alwad i'r weinidogaeth, a chyfeiriai'n gyson at hynny.

Yn yr ysgol uwchradd cymhellwyd ef i beidio â rhuthro i geisio hyfforddiant

mewn coleg diwinyddol, gan ddeall y gallai ddatblygu fel pregethwr wrth ddilyn proffesiwn arall. Ymhen y rhawg derbyniodd hyfforddiant fel meddyg gan arbenigo fel seiciatrydd. Ar ôl cyfnod yn y fyddin, datblygodd yn seiciatrydd o statws byd-eang, gan wasanaethu'n bennaf yn Lerpwl. Daeth â syniadau chwyldroadol a newydd i'r proffesiwn, ac roedd ei syniadau ar flaen y gad wrth geisio troi agweddau pobl o feddylfryd y seilam i weld salwch meddwl fel pob salwch arall, a bod triniaethau newydd yn adfer pobl i fywyd normal a llawn.

Gweddïwr

Elfen greiddiol i fywyd David Enoch oedd ei ffydd sylfaenol ym mherson Iesu Grist ac iddo'i dderbyn fel ei Waredwr. Fe wnaeth y dylanwadau cynnar yng Nghapel y Sgwâr ac yn yr Apostolic Temple ddwyn ffrwyth, a bu'n bregethwr ac yn genhadwr eneiniedig ac ymroddedig. Bu cyfeillgarwch y Parchg Ray Baker, offeiriad Anglicanaidd yn Eglwys St Mary's Upton, Cilgwri, yn ddylanwad mawr arall arno, heb anghofio pregethu a llyfrau'r Parchg Ddr Martyn Lloyd-Jones. Byddai David Enoch ei hun yn dweud mai Duw oedd sylfaen a sylwedd ei ffurfiant fel cennad ffydd, a bod pob un yn gyfryngau gras a datguddiad o ryfeddod yr efengyl. Roedd wedi priodi Joyce, un o ferched y Parchg W. H. Davies, Eglwys Aberduar, Llanbed, ac roedd ei dad yng nghyfraith yn ddylanwad pwysig arno.

Derbyniodd y cyfrifoldeb o fod yn isgadeirydd pwyllgor trefnu 'Dweud wrth Gymru' ac ar ôl i'r cadeirydd, sef George Thomas, Arglwydd Tonypandy, orfod ildio'r cyfrifoldeb oherwydd salwch,

Dr Enoch oedd prif symbylydd y gwaith. Roedd ef a'i ail wraig, Anne, yn aelodau yn y City Temple, Caerdydd, a'r Eglwys Gadeiriol yn Llandaf, ac roedd yn ddigon hapus i fynychu oedfaon ym mhob traddodiad eglwysig. Roedd holl liwiau ffydd enfys Duw yn ei enaid, ac angor y cyfan oedd ei ddefosiwn cyson gerbron ei Arglwydd.

Gweledydd

Ysgrifennodd lyfrau ac erthyglau arwyddocaol a dadlennol. Ystyrir ef yn awdurdod ar gyflyrau anarferol, fel y trafododd yn ei glasur *Uncommon Psychiatric Syndromes*. Ymhlith gweddill ei gyhoeddiadau ceir *Christian Faith and Clinical Psychiatry* ac *I want a Christian Psychiatrist*. Cyflwynodd gyfres ar y teledu: *Let's Face Facts*, ac roedd yn awyddus i ddangos ar bob cyfrwng y berthynas rhwng meddygaeth a Christnogaeth.




Roedd iddo weledigaeth eang oddi mewn i fyd meddygaeth, a bu ar nifer o deithiau darlithio ar draws y byd yn rhannu ei brofiad proffesiynol a'i anogaeth i'w gyd-feddygon. Yn yr un modd, roedd ganddo gynfas helaeth wrth feddwl am genhadaeth yr eglwys yn lleol ac yn genedlaethol, heb anghofio'i ddyhead i hyrwyddo cenhadaeth fyd-eang.

Serch hynny, dyn teulu oedd David, ac roedd yn dathlu bywyd ei fab, Dafydd, a'i deulu yntau. Roedd o fewn blwyddyn i ddathlu ei ben-blwydd yn gant oed, ac os yw'r degawd diwethaf wedi colli rhywfaint o adnabod y gŵr mawr hwn, diolchwn amdano, a diolch i Dduw am y gras a ddatguddiwyd yn ei fywyd.

Denzil I. John

Bu David Enoch yn gyfrannwr cyson i *Seren Cymru* dros nifer o flynyddoedd, gan lunio ysgrifau diwinyddol ar faterion moesol. Roedd bob amser yn cynnig arweiniad clir a phendant. Maes o law fe aeth ati i gyhoeddi llawer o'r rhain yn y gyfrol *Y Deg Gorchymyn ac erthyglau eraill*, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair yn 2014. Mae ar gael o'ch siop lyfrau leol am £8.99. Mae ei hunangofiant, *Enoch's Walk*, a gyhoeddwyd gan y Lolfa, ar gael am £11.99, yn ogystal â chyfrol Robin Gwyndaf, *Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am lechyd meddwl a Chymwynas Fawr Dr David Enoch*; pris £15.

Aled Davies



Credo Nicea – Sesiwn Dau: Ymgnewdoliad Iesu Grist (rhan 1)

Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.

Y Caribî

Ysgrifennwyd gan y Parchg Thanduxolo Noketshe, offeiriad â gofal plwyfi St Mary a Christ Church, Archddiaconiaeth Ganolog Ynys Sant Kitts.

Mae'r Parchg Thanduxolo yn rhan o raglen Cyfnewid Lleoedd USPG (United Society Partners in the Gospel) a'i harweiniodd i ymgymryd â gweinidogaeth am gyfnod o bum mlynedd fel offeiriad mewn gofal yn St Mary a Christ Church, Esgobaeth Gogledd-ddwyrain y Caribî ac Aruba, Talaith India'r Gorllewin. Yn ei rôl mae ganddo drosolwg ar holl agweddau gweinidogaeth yr eglwys. Mae'n aelod o Gyngor Cyffuriau Sant Kitts a Nevis, fel cynrychiolydd y Cyngor Cristnogol. Fel un sy'n gweithredu dros yr amgylchedd, mae'n defnyddio cymeriad ac egwyddorion Iesu i drawsnewid y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Eglwys Anglicanaidd Sant Kitts

Dwy genedl ar ddwy ynys ym Môr yr Iwerydd a Môr y Caribî yw Sant Kitts a Nevis. Dau blwyf gwledig ar ochr ddwyreiniol Ynys Sant Kitts yw St Mary a Christ Church. Mae gan eglwys St Mary gynulleidfa o 60–80 ac mae tua 40–50 yng nghynulleidfa Christ Church. Cristnogion sydd yn y mwyafrif ar y ddwy ynys. Ceir cymunedau Rasta yno hefyd, yn ogystal â chrefyddau eraill. Ar hyn o bryd, mae'r Eglwys yn datblygu rhaglenni sy'n medru cyrraedd grwpiau ieuenctid a chanol oed er mwyn iddynt fedru cynnig eu talentau a'u doniau i gymunedau ac eglwysi.

Ymgnewdoliad Duw yn Iesu Grist

Credwn yn un Arglwydd Iesu Grist, unig Fab Duw, a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd,

Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, gwir Dduw o wir Dduw, wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur, yn un hanfod â'r Tad,

a thrwyddo ef y gwnaed pob peth. Er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth disgynnodd o'r nefoedd; trwy nerth yr Ysbryd Glân daeth yn gnawd o Fair Forwyn, ac fe'i gwnaed yn ddyn.

Darlleniad o'r Beibl – Ioan 1:1–14

¹Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. ²Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. ³Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. ⁴Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. ⁵Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.

⁶Daeth dyn wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan. ⁷Daeth hwn yn dyst, i dystiolaethu am y goleuni, er mwyn i bawb ddod i gredu trwyddo. ⁸Nid ef oedd y goleuni, ond daeth i dystiolaethu am y goleuni. ⁹Yr oedd y gwir oleuni, sy'n goleuo pawb, eisoes yn dod i'r byd. ¹⁰Yr oedd yn y byd, a daeth y byd i fod trwyddo, ac nid adnabu'r byd mohono. ¹¹Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono. ¹²Ond cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw, ¹³plant wedi eu geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw.

¹⁴A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Myfyrdod

Athrawiaeth yr ymgnewdoliad yw un o sylfeini hanfodol ein ffydd. Fe ddaw oddi wrth y Cristnogion cynnar oedd â syniadau gwahanol am natur Iesu, y Crist, a'n perthynas ag ef (yn bersonol ac fel Eglwysi).

Yn Nicea tua 325 OC y bu i'r Ymerawdwr Cystennin gynnwll cyngor i ddatrys gwahaniaethau barn ac i gynghreirio â'r eglwys i gynnal yr ymerodraeth a'i diwinyddiaeth. Yr hyn na wyddai oedd y byddai'n esgor ar Gredo Nicea.

(l'w barhau)



Caniadaeth y Cysegr
Sul, 10 Awst, am 7:30yb

a 4:30yp

Cymanfa Ganu Eisteddfod 2025: Rhan 1
Cymanfa Ganu Eisteddfod Genedlaethol
Wrecsam dan arweiniad Ann Atkinson

Oedfa Radio Cymru

Sul, 10 Awst, am 12:00yp

Oedfa dan ofal John Davies, Cadeirydd
Pwyllgor Gwaith, Eisteddfod y Garreg Las,
2026



Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

Credo Nicea – Sesiwn Dau: Ymgnewdoliad Iesu Grist (rhan 2)

Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea–Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.

Pan edrychwn ar sut y lluniwyd Credo Nicea, gwelwn fod gan y Cyngor wybodaeth o'r ysgrifurau a'r gallu i'w deall a'u dehongli. Yn Efengyl Ioan cawn y geiriau hyn: "Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw" (Ioan 1:1-2). Yn ogystal, nid yw Ioan yn ymddiheuro am ddyrchafu ei ddatganiad drwy gyhoeddi'n ddigyfaddawd, "Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod" (Ioan 1:3).

Yna mae'r dirgelwch y mae pobl yn dal hyd yn oed heddiw i geisio'i ddeall, "A daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith ..." (Ioan 1:14).

Felly, awgrymir mai'r Gair wedi ei ymgnewdoli yw Iesu a'i fod yno ers y dechrau, ac iddo ddod yn gnawd. Felly, mae dirgelwch yr ymgnewdoliad yn ein cymell i beidio cyfyngu ar Dduw fel y byddai ein meddyliau'n ei wneud. Dylem ddysgu oddi wrth y nodweddion niferus sydd wedi eu datguddio ym mywyd Iesu, sy'n ein sianelu i weld gras, cariad a gwaredigaeth gyflawn yn Iesu.

Yn ymgnewdoliad Iesu, mae awduron yn portreadu delweddau gwahanol o Iesu:

- rhyddhawr y rhai oedd/sydd yn cael eu gorthrymu
- gwas a ddaeth i roi cysur i'r gwan a'r bregus
- iachawr y rhai sy'n sâl ac yn marw.

Cawn ein harwain drwy'r rhain, a nifer o delweddau eraill, i weld Iesu fel yr unig un yn hanes y ddynolryw a gyflwynodd Dduw o'r newydd i'w bobl ei hun yn berffaith a di-fai. Defnyddiodd yr ailgyflwyno hwn ein gwendid a'n cyfyngiadau ni i ddatguddio grym Duw ac i ddangos Duw cariadus a grasol i ni.

Cawn ein herio gan ymgnewdoliad Duw yn Iesu i ochel agwedd fuddugoliaethus ac i gymryd arnom weithredoedd a meddwl

gwas, yn unol â Philipiad 2:5–11. Mae'n awgrymu fod angen i ni ein hunain gredu, a chyhoeddi i eraill, na all dim ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw (gw. Rhufeiniaid 8:31–9). Ein gwaith ni yw cydnabod presenoldeb Duw, hyd yn oed pan mae'n ymddangos nad yw Duw yno. Emaniwel yw Duw: gyda ni bob amser. Oherwydd pan ydym ni'n wan, down o hyd i'w nerth trwy rym yr Ysbryd Glân. Dod wyneb yn wyneb â'n Harglwydd fel hyn fydd yn ein galluogi i ymuno â datganiad y Cyngor: "Credwn yn un Arglwydd, Iesu Grist, unig Fab Duw, a genhedlwyd gan y Tad cyn yr holl oesoedd, Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, gwir Dduw o wir Dduw, wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur, yn un hanfod â'r Tad."

Dygir dau begwn marwoldeb a duwdod i undod yn yr ymgnewdoliad, lle mae duwdod yn ymyrryd yng nghyfyngiadau marwoldeb. Fel rhai marwol, felly, dylem ildio i rym dwyfol Duw. Oherwydd y mae'n ein galluogi i weld ac arddangos athrawiaeth yr ymgnewdoliad i'r byd.

Cwestiynau i fyfyrion arnynt

1. Sut mae ysbrydoli pobl o'r un ffydd â ni i newid, a byw bywyd fel rhodd gras Duw i bawb ohonom – gan gofio bob pawb yn golygu PAWB (gan gynnwys byd natur)?
2. Fedrwn chi feddwl am enghraifft o achlysur pan fuoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn cydsefyll â phobl oedd yn wan neu'n fregus?
3. Sut fedrwn ni fod yn falm a chysur i bobl sy'n sâl ac yn marw?
4. Meddylwch am yr argyfwng hinsawdd: sut mae ymgnewdoliad Duw yn Iesu yn ein herio i weithredu?

Gweddi

Dad nefol, diolch i ti am ddanfod dy Fab Iesu i'r byd. Boed i ni gydnabod ein galwad i garu ac anrhydeddu dy holl gread. Agor ein calonnau i ddirnad a chofleidio presenoldeb cyson Iesu, dy Air a ddaeth yn gnawd, fel y gallwn dystio i'w gariad a'th ofal diderfyn dros bawb. Arglwydd, cryfha ein ffydd, nid yn unig yn y pethau gweledig, ond yn y pethau anweledig. Amen.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 17 Awst, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau

YMUWCH GYDA NI AM STORI A HWYL

EIN STORI NESAF FYDD

PŴER YR YSBRYD GLÂN

CROESO CYNNES I BAWB

SESIWN 44

ACTAU 2

www.ysgolul.com

Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Defosiwn Undeb Nant Gwrtheyrn

Yn ystod Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn Nant Gwrtheyrn eleni fe arweiniodd Dafydd Roberts, Trefor ddwy astudiaeth Feiblaidd ragorol. Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn cynnwys crynodeb ohonynt yn Y Tyst. Dyma'r rhan gyntaf.

Myfyrdod yn seiliedig ar Salm 73:1-6; 21-28:

Mae'r salmydd yn dechrau mewn lle da ac yn ddigon siŵr o'i bethau: 'Yn sicr, da yw Duw i'r uniawn a'r Arglwydd i'r rhai pur o galon' [adn. 1]. Ond er mor sicr o'i fater ydi o, mae'n gorfod cydnabod na fu ond y dim iddo godymu (yn ffigurol, felly). 'Yr oedd fy nhraed bron â baglu, a bu ond y dim i'm gwadnau lithro' [adn 2]. Sut hynny? Cenfigen a ladd ei pherchennog, meddai'r ddihareb Gymraeg. A dyna sy'n lladd ac yn corddi'r salmydd. 'Am fy mod yn cenfigennu wrth y trahaus ac yn eiddigeddus o llwyddiant y drygionus' [adn. 3].

Mae'n sôn am ryw bobl falch, drahaus sydd fel petaen nhw'n llwyddo ym mhob peth. Does ganddyn nhw ddim gofidiau fel pobl eraill; mae'u cyrff yn raenus. Mae balchder fel cadwyn am eu gyddfa. A dyfynnu rŵan o beibl.net [adnodau 7-9]

'Maen nhw'n llond eu croen ac mor llawn ohonyn nhw eu hunain hefyd! Maen nhw'n gwawdio ac yn siarad yn faleisus, ac mor hunanhyderus wrth fygwth gormesu. Maen nhw'n siarad fel petai piau nhw'r nefoedd, ac yn stryctian [hynny yw, ymddwyn yn bwysig; torsythu] wrth drin y ddaear.'

Corddi

Ac mae'r pethau yma'n corddi'r salmydd – mae'n cwyno'i fod o wedi cadw ei 'galon yn lân' [adn 13] ond i beth? Mae'n cwyno'i fod wedi gorfod dioddef; 'ar hyd y dydd yr wyf wedi fy mhoenydio ac fe'm cosbir bob bore.' Wyddom ni ddim be'n union oedd wedi digwydd yn ei hanes ond gallwn fod yn siŵr ei fod yn dioddef mewn rhyw ffordd, tra bod pobl annuwiol, drahaus yn cael 'esmwythyd ac yn casglu cyfoeth' [adn 12].

Tua diwedd y salm, mae'r salmydd fel petai'n ei ffeiddio'u hun am goleddu meddyliau mor chwerw; 'yr oeddwn yn ddwl a diddeall, ac yn ymddwyn fel anifail tuag atat' [adn 22]. Ond mae'n dod at ei goed ac yn canmol Duw ac yn dweud yn ddigon clir nad ydion dymuno neb arall ar y ddaear ond Duw. Beth sydd wedi digwydd felly? Mae'r salmydd ei hun yn

esbonio. 'Ond pan geisiais ddeall hyn,[h.y. llwyddiant pobol annuwiol] yr oedd yn rhy anodd imi, *nes imi fynd i gysegr Duw*; yno y gwelais eu diwedd' [adn. 16,17].

Addoliad cyhoeddus

Aeth y salmydd i gysegr Duw i addoli. Wyddom ni ddim beth yn union gafodd ei ddweud na'i wneud yno; mae'n bosibl ei fod wedi myfyrio yno am bethau Duw ac i'r Ysbryd Glân ei oleuo. Efallai mai yn yr addoliad cyhoeddus, mewn Oedfa yr oedd o. Yr hyn sy'n bwysig i'w nodi yw mai yma y gwelodd ei gamgymeriad yn amau doethineb a daioni Duw. Yma y mae'n dod i sylweddoli fod dydd gwastatau'r cyfrif yn mynd i ddod. Yma, mae'n dod i sylweddoli mai gan Dduw y mae'r gair olaf - 'bydd y drygionus fel us yn cael ei yrru gan wynt. Am hynny, ni saif y drygionus yn y farn na phechaduriaid yng nghynulleidfau'r cyfiawn. Y mae'r Arglwydd yn gwylio ffordd y cyfiawn, ond y mae ffordd y drygionus yn darford' [Salm 1:5,6]. Dyna'r datganiad yn y Salm gyntaf. Mi fyddwn yn fwy cyfarwydd, o bosib, â'r geiriau 'ffordd yr annuwiolion a ddifethir'. A rhag ofn i ninnau fynd i feddwl mai am ryw Dduw lliidiog, creulon y sonnir amdano yn yr Hen Destament, mae'n wiw inni gofio hefyd am rybuddion Iesu Grist yn y Testament Newydd am y Farn a ddaw.

Bydd yr ail ran yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Wil Ifan

Diwrnod i ddathlu Wil Ifan:
Archdderwydd,
gweinidog, bardd
a heddychwyr

Bydd diwrnod arbennig i ddathlu cyfraniad Wil Ifan, Sadwrn 11 Hydref 2025, neuadd Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, 11-00 tan 4-00.

Bardd a gweinidog oedd Wil Ifan. Roedd e'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr o 1909–68. Roedd yn Archdderwydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol o 1947–50. Cafodd yr Eisteddfod ei chynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 1948 yng Nghaeau'r Bontnewydd (Newbridge Fields). Enillodd y goron yn yr Eisteddfod dair gwaith yn 1913, 1917 a 1925. Roedd yn weinidog gyda chapel yr Annibynwyr Saesneg ym Mhen-y-bont. Roedd hefyd yn ysgrifennu colofn ym mhapur newydd



y *Western Mail*.

Roedd yn heddychwyr ac yn gwrthwynebu rhyfeloedd. Ysgrifennodd lawer o gerddi am effaith y rhyfel. Roedd wedi byw trwy'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Dyma un o'i gerddi:

Deuoedd

Dau löyn byw yn odli'n ber
A'r meysydd glas a'u milfil sêr

Dwy wennol chwim fry ar eu hynt
Yn dweud bod hindda yn y gwynt.

Ond uwch eu pen, dau Flenheim du,
A braw y ddrycin yn eu rhu.

Ac yn y cwmwl dau angel prudd
Yn cuddio'u hwyneb rhag y dydd.

Roedd yn ysgrifennu cerddi am ardal Pen-y-bont hefyd. Dyma un o'i gerddi enwocaf:

Ym Mhorthcawl

Drwy'r dydd daw llef y durtur drist
O'i chawell melyn ger y tŷ
Beth yw ei llais? Rhyw ddwyster pêr
A loes caethiwed, gofid cu,
A chenedlaethau o hiraeth gwyllt
Am rywbeth gollwyd, ddyddiau fu.

Mae ganddo gerdd i afon Ogwr hefyd sy'n sôn am y dŵr yn troi'n ddu oherwydd llwch y gweithfeydd a'r llygredd.

Ogwr

Roedd llwybr hyd lan yr afon,
Ond cerdded drwy'r cae a wnawn i;
Cans gwyddwn am Ogwr druan
Mor ddu oedd ei dyfroedd hi.

Er na welwn mwyach mohoni,
Fel glywn ni ei si yn y gwynt,
Ac wrth aros i wrando ei chlychau
Curodd fy nghalon yn gynt.

Yn edifar neseais i ati,
Blentyn y llwch a'r glo man;
Er bod creithiau glas ar ei hwyneb
'Chollodd Ogwr mo'i chân.

Mae rhai o aelodau Cymdeithas Hanes Bro Ogwr wedi cyfrannu at arddangosfa fach am ei fywyd, gan gynnwys penddelw bendigedig gan Jenkyn Evans, yn St John's House.

Yr ydym ni'n codi arian i roi plac Cymraeg ar ei dŷ: os ydych chi'n medru cyfrannu ewch at

parhad ary dudalen gefn

Barn Annibynnol

Haelioni Duw

Rwy'n wych, rwy'n wael, rwy'n
gymysg oll i gyd;
Mewn nych, mewn nerth, mewn
helbul ac mewn hedd,
Rwy'n fydol ac ysbrydol yr un pryd.
Deg canmil yw fy meiau, ond cyn fy
medd
Mi garwn wneuthur rhywbeth gwiw
dros Grist
Fel nad edrycho arnaf mor rhyw drist.


Tybed faint ohonom yn ein calonnau
sy'n cydymdeimlo'n llwyr â'r llinellau
gonest hyn o soned 'Gair o Brofiad'
(1939) gan R. Williams Parry? Tybed
nad yw'r awch i dystiolaethu dros Grist
a'i deyrnas mewn rhyw fodd llachar a
syfrdanol yn deimlad y gallwn ei rannu
gyda Williams Parry? Gwyddom am
fawrion y ffydd ar hyd yr oesau a
wnaeth eu marc drwy wasanaeth
disglair, ac a edmygir gennym oll;
maent yn esiamplau i'w hefelychu a'u
canmol a mawrygwn y rhai hynny a
lwyddodd i arddangos eu ffydd mewn
gweithredoedd mawr a gwasanaethgar.

Jane Evans

Yng nghapel Tynewydd, Cynwyl Gaeo
yng nghefn gwlad Sir Gâr y mae Beibl,
ac ynddo'r arysgrif:

*Jane Evans, gynt o Gaeo, Sir
Gaerfyrddin. Bu'r Beibl hwn yn y
Crimea drwy'r holl ryfel gyda'r
'Russians' trwy fod Jane Evans yno
yn nyrsio'r milwyr ...*

Beibl Jane Evans yw hwn, merch ffarm
Tŷ'n-y-waun a aned yn 1804 ac a fu'n



aelod ffyddlon a defosiynol yng nghapel
Tynewydd. Tua 1848 aeth gyda
phorthmyn o Lanymddyfri i Lundain, ac
yno ymaelododd â'r gynulleidfa
Gymraeg a addolai yn Jewin Crescent.
Bu'n forwyn ac yn nyrs yn Lundain ond
teimlai awydd cynyddol i wasanaethu
Crist a'i chyd-ddyn yn well, ac ar 24
Mawrth 1855 ymgeisiodd i fod yn nyrs
yn y Crimea. Tystia amryw lythyron fod
Jane o gymeriad amyneddgar, dawnus
a gonest, ac fe'i cyflogwyd am 16 swllt
yr wythnos i ymuno â grŵp o ferched a
gwragedd a oedd ar eu ffordd i nyrsio
yn Rhyfel y Crimea. Yno, bu'n gweithio
yn ysbytai Koulali a Scutari yn Nhwrçi,
a oedd yn derbyn milwyr clwyfedig ar
draws y Môr Du o'r Crimea. Pennaeth y
nyrsys oedd Florence Nightingale, a
chydweithwraig arall o Gymru oedd
Elizabeth Davies, a adnabyddir yn well

fel Betsi Cadwaladr. Wedi'r rhyfel,
dychwelodd Jane i Lundain gyda llo
tarw a gafodd yn anrheg oddi wrth ei
chleifion diolchgar! Aeth yn ddall ar
ddiwedd ei hoes ac fe'i claddwyd ym
mynwent Abney Park yn Llundain, ond
dychwelwyd ei Beibl Cymraeg i gapel
Tynewydd. Mae cofeb farmor hardd iddi
yng nghapel cyfagos Pumsaint.

Trwy ras

Gellid pentyrru enghreifftiau tebyg o
weithredoedd da pobl Dduw ar hyd y
canrifoedd – gweithredoedd nad oes
gan y rhan fwyaf ohonom na'r cyfle na'r
gallu i'w hefelychu, ond does dim rhaid i
ni ddigalonni. Pwysleisia Paul sawl
gwaith mai, 'Trwy ras yr ydych yn
gadwedig, trwy ffydd; a hynny nid
ohonoch chi eich hunain'. 'Haelioni Duw
ydy'r unig beth sy'n eich achub wrth i
chi gredu. 'Dych chi ddim wedi gwneud
dim i haeddu'r peth. Anrheg Duw ydy e!
'Dych chi'n gallu gwneud dim i'w ennill
felly does dim lle i unrhyw un frolio.'
(Effesiaid 2: 8-9).

Mae gweithredoedd da'r Cristion yn
deillio o'i ffydd – boed yn weithredoedd
'mawr' fel rhai Jane neu yn
weithredoedd bychain pob dydd fel
sydd o fewn cwmipas y rhan fwyaf
ohonom: 'gwneud ein rhan' mewn
cymwynasgarwch a chonsŷrn, wrth
gefnogi elusennau ac estyn llaw. 'Ffydd
heb weithredoedd marw ydyw' (Iago 2:
26).

Cefnogi'r gormeswr

Difrawder ac apathi yw'r gelyn mawr.
Dyfynnir yn aml ymadrodd a briodolir,
yn gam neu'n gymwys, i Edmund
Burke: 'All that evil needs to flourish is
that good men do nothing' Wrth 'wneud
dim' byddwn 'ond yn euog bob yr un o
ddal ei got i wyllo'r dyn' sy'n peri
tywyllwch a gofid ar strydoedd
Palesteina, chwedl Brigyn yn y gân
'Haleliwia'. Drwy beidio â chodi llais neu
beidio â gwneud safiad – pa mor fach
bynnag – rydym yn cefnogi'r gormeswr.

Dyma'r maen sydd yn y gongol

N'ad i'm adeiladu'r Er gwaethaf ei
hannheilyngdod, mae gras Duw a nerth
ei Ysbryd yn gweithio ynom ac yn dwyn
ffrwyth. Ymateb i'w gariad grasol a
wnawn ni gan adlewyrchu'r cariad
hwnnw yn ein bywydau a'n
gweithredoedd. Er ein methiannau,
mae ffydd a maddeuant yn ein dwyn i'r
lan: gwadodd Pedr Grist ac eto ef oedd
y Graig yr adeiladodd yr Iesu ei eglwys
arni. A'n braint oll yw bod yn rhan o'r
grraig honno yn ein cymdeithas a'n
cymuned.

Eurig Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd
yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr
na'r tîm golygyddol.)



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS**Ffôn: 02920 490582****E-bost: tyst@annibynwyr.cymru****Golygyddion****Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com**Alun Lenny**
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:****Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru**Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.


Wil Ifan – parhad

www.justgiving.com/crowdfunding/cronfawilifan?utm_medium=CR&utm_source=CL&fbclid=IwY2xjawLjPWNleHRuA2FlbQIxMAABHhG5EoPnEOyAPJMNqpHYRfWq11OK-N9ERFJZ0F7QHEgOXt9kXdN-LZtqcKxM_aem_PmMNa900MfcGQIr9K6eRFw neu chwiliwch am Just Giving Wil Ifan.

Bydd Mererid Hopwood yn dadorchuddio'r plac Cymraeg am 10yb, 14 Park St, ac wedyn yn y Tabernacl, bydd sgysiau gan Mererid Hopwood yr Archdderwydd presennol, a hefyd gan Mari George enillydd Llyfr y Flwyddyn llynedd. Byddwn ni'n datlu llwyddiant aelod yr Orsedd newydd o'n hardal ni, sef Jane Harries. Bydd cystadleuaeth farddoniaeth gyda'r ysgolion lleol, arddangosfa Merched y Wawr am gyfraniad merched lleol i Gymru, a chyfle i edrych ar y Ddeiseb Heddwch. Bydd gennym ni Siop Sionc llyfrau Cymraeg, Cant a Mil o Gaerdydd. A bydd lluniaeth ar gael trwy'r dydd.

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cadw'r dyddiad yn y calendr ... a dewch i fwynhau diwrnod arbennig!

**Mari George, Gwyn Derfel, Dylan Rhys-Parry,
Robin Samuel, Richard Cleaves**



DYFODOL CAPEL PINC CIL-Y-CWM



Pentre bach pum milltir i'r gogledd o Lanymddyfri yw Cil-y-cwm, oedd yn lle prysur iawn yn oes y porthmyn slawer dydd. Ergyd carreg o'r pentre mae adfeilion y bwthyn lle ganwyd yr emynydd mawr Morgan Rhys, a ganodd 'Aeth yn brynhawn mae yn hwyrhau; Mae drws trugaredd heb ei gau.' Beth bynnag am hynny, mae drws swyddfa'r post, yr ysgol a'r dafarn yng Nghil-y-cwm bellach wedi cau, a dyfodol yr eglwys hynafol yn ansicr.

Mentor

Ar fin cau hefyd roedd drws Capel y Groes, sydd wedi ei guddio tu ôl i'r tai yn y brif stryd, i lawr lôn gul gyferbyn a'r eglwys. Mae'r capel Annibynnol yn cael ei adnabod fel y 'capel pinc' oherwydd lliw'r calch. Mae'n debyg bod yr oedfa olaf wedi cael ei chynnal yno, ond mae cynllun cyffrous ar droed nawr i droi'r adeilad yn ganolfan i gymuned wledig eang, i arbed y drws rhag cau am byth. Mae Menter Cil-y-cwm wedi cael caniatâd cynllunio yn barod i drawsnewid ac ehangu'r adeilad. Bydd y prosiect yn costio £450,000 i gyd. Bydd grant o £150,000 a ddyfarnwyd gan Gyngor Sir Gâr o'r gronfa Ffyniant Bro yn cael ei roi tuag at grantiau sylweddol eraill.

Canolfan ardal eang

'Mae'n bwysig iawn sicrhau dyfodol yr adeilad rhedredig Gradd II

hwn i'r gymuned,' meddai'r cynghorydd lleol, Arwel Davies. 'Rwy'n gobeithio y bydd pobl yn gallu cymdeithasu, a chymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon ac addysg bellach. Bydd y pentref yn llawer mwy bywiog os oes lle i bobl gwrdd am goffi, sgwrsio ac yn y blaen.'

Bydd y ganolfan newydd yn gwasanaethu trigolion dros ran eang iawn o ogledd-ddwyrain Sir Gâr. Mae aelodau Menter Cil-y-cwm i'w canmol am eu gweledigaeth. Dymuniadau gorau iddynt wrth weithio i wireddu'r weledigaeth yn y capel pinc.

